

Pecyn Recriwtio

**Hyfforddeion Prosiect GG
(Glaswelltiroedd Gwydn)**

Cyflwyniad

Rydyn ni mewn ras i achub y planhigion gwyllt a'r ffyngau sy'n sail i holl fywyd y ddaear. Mae'n ras na allwn ni fforddio ei cholli. Mae planhigion gwyllt a ffyngau yn cynnal cadwyni bwyd, maen nhw'n rym pwerus yn erbyn newid hinsawdd, ac yn gefndir i fywyd ar y ddaear. Maen nhw'n cyfoethogi ein tirweddau naturiol ni a gall eu harddwch a'u lliwiau dawelu ein meddyliau. Ond mae planhigion gwyllt a ffyngau mewn argyfwng: gyda cholli bioamrywiaeth yn digwydd ar y raddfa gyflymaf erioed yn hanes dyn, mae dwy o bob pum rhywogaeth mewn perygl bellach o ddifodiant. Nawr yw'r amser i ni ddod at ein gilydd a'u hachub nhw – er lles pob un ohonom ni.

Ers dros 30 mlynedd, rydyn ni yn Plantlife wedi bod yn llais byd-eang blaenllaw ar gyfer planhigion gwyllt a ffyngau. Rydyn ni wrth galon rhwydwaith byd-eang, gan weithio mewn partneriaeth â llawer o unigolion, sefydliadau a pherchnogion tir a rheolwyr yn y DU a thramor i gyflymu camau cadwraeth ar draws y blaned. Ond mae angen i ni wneud mwy. Felly mae gennym ni genhadaeth i godi ymwybyddiaeth o ba mor bwysig yw planhigion gwyllt a ffyngau i fywyd ac i ysbrydoli mwy o bobl i weithredu i'w helpu i ffynnu eto. Ymunwch â ni wrth i ni wynebu her fwyaf ein hoes. Mae arnom ni angen planhigion gwyllt a ffyngau i oroesi. Nawr, maen nhw ein hangen ni hefyd.

Am Plantlife

- Wedi'i sefydlu yn 1989, mae gan Plantlife bellach 20,000 o aelodau a llawer mwy o gefnogwyr.
- Plantlife yw'r unig elusen aelodaeth yn y DU sydd wedi ymrwmo i warchod planhigion gwyllt a ffyngau yn eu cynefinoedd naturiol a helpu pobl i'w mwynhau a dysgu amdanynt.
- Mae Plantlife yn gweithio ar draws yr holl ecosystemau a chynefinoedd planhigion allweddol gan ganolbwyntio ar gynefinoedd a rhywogaethau penodol yn dibynnu ar angen. Ei flaenoriaethau presennol yn y DU yw glaswelltiroedd a choedwigoedd tymherus oherwydd eu bod yn agored iawn i niwed ac yn bwysig i adferiad rhywogaethau sydd mewn perygl.
- Mae Plantlife yn berchen ar 24 o warchodfeydd natur sy'n gorchuddio bron i 4,500 o erwau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban ac Ynys Manaw. Mae'n gwneud gwaith cadwraeth ac allgymorth ar ei dir ei hun ac mewn partneriaeth â llawer o diroedd eraill. Mae Plantlife yn cynghori perchnogion tir ac yn cyhoeddi canllawiau arfer gorau. Mae'n cynnal ymchwil ac yn casglu data fel sail i bolisi'r llywodraeth. Gan weithio gyda'r Bartneriaeth Fyd-eang ar gyfer Cadwraeth Planhigion, bu Plantlife yn allweddol wrth greu'r Strategaeth Fyd-eang ar gyfer Cadwraeth Planhigion a sefydlu Ardaloedd Planhigion Pwysig ar draws y byd – gan gynllunio eu cadwraeth gyda'r llywodraeth a grwpiau cymunedol.
- Mae Plantlife yn gweithio'n fyd-eang drwy gyfrannu at gonfensiynau rhyngwladol ar hinsawdd a bioamrywiaeth a thrwy ei statws fel Arsylwr COP cofrestredig.
- Mae Plantlife yn ennyn diddordeb pobl o bob oedran a gallu mewn cadwraeth ac addysg planhigion a'i nod yw rhoi cyfleoedd i bawb fwynhau planhigion gwyllt a ffyngau.
- Mae Plantlife yn cael ei lywodraethu gan fwrdd o 12 o ymddiriedolwyr ac mae ganddo tua 80 aelod o staff wedi'u lleoli ar draws y DU. Mae'n cefnogi tîm o tua 1,500 o wirfoddolwyr sy'n gweithio yn y maes, mewn digwyddiadau ac yn ei swyddfeydd.
- Mae Plantlife yn cael ei gyllido gan roddion gan ei aelodau a'i gefnogwyr, drwy grantiau ac ymddiriedolaethau elusennol. Yn ogystal â phartneriaethau corfforaethol a thrwy ei gyngor a'i brosiectau rheoli tir arloesol.
- Mae Plantlife Trading Ltd yn is-gwmni i Plantlife, sy'n cynnig gwasanaethau ymgynghori ar gyfer perchnogion tir, rheolwyr ac eraill sydd â dylanwad.
-

Cyflwyniad i'r rôl

Caru'r awyr agored? Yn ystyried gyrfa mewn cadwraeth ac angen profiad? Wedi breuddwydio erioed am swydd lle gallech chi fod ym myd natur a dysgu sgiliau newydd?

Os felly, rydyn ni eisiau clywed gennych chi!

Rydyn ni'n cynnig cyfle gwych i ddau hyfforddai newydd ymuno â'n prosiect Glaswelltiroedd Gwydn yng Nghymru. Byddwch yn datblygu gwybodaeth a phrofiad ochr yn ochr â sgiliau ymarferol sy'n addas ar gyfer cyflogaeth yn y sector cadwraeth modern. Rydym yn disgwyl y byddwch yn hyfforddi ac yn gweithio gyda'ch gilydd fel hyfforddeion gyda chefnogaeth lawn staff prosiect Plantlife a'r tîm ehangach o staff.

Byddwch yn cael cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd fel gwaith rheoli cynefinoedd ymarferol, sut i gynnal arolygon safle ar gyfer planhigion a chynefinoedd prin, sgiliau digidol a chyfathrebu a helpu i gynnal digwyddiadau ar gyfer y cyhoedd.

Mae Glaswelltiroedd Gwydn yn brosiect partneriaeth newydd, tair blynedd, ar gyfer Cymru gyfan, sy'n cael ei gefnogi gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur, sy'n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru a'i darparu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar wella cyflwr y cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd i'w cael mewn glaswelltiroedd gwarchoddedig ledled Cymru.

Amdanoch chi

Rydym yn chwilio am bobl frwdfrydig o unrhyw gefndir a hoffai gyfle i ddatblygu a dilyn gyrfa yn y sector cadwraeth. Rhaid i chi fwynhau gweithio gydag eraill a dysgu oddi wrth eraill a bod â sgiliau cyfathrebu da, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Yn fwy na dim rhaid bod gennych ddyhead i ddysgu sgiliau newydd yn yr awyr agored a bod yn barod i deithio ledled Cymru.

Nid oes angen unrhyw brofiad cadwraeth blaenorol na chymwysterau cysylltiedig â chadwraeth i wneud cais am y rôl yma. Mae'r hyfforddeiaeth yma wedi'i chynllunio i greu cyfle datblygiad proffesiynol i bobl sy'n dymuno ymuno â'r sector. Felly, dylai'r ymgeiswyr fod â llai na dwy flynedd o brofiad â thâl neu'n ddi-dâl yn y sector cadwraeth (heb gynnwys gwaith academaidd).

DISGRIFIAD SWYDD PLANTLIFE - Hyfforddai Prosiect Glaswelltiroedd Gwydn

YN ADRODD I

Glaswelltiroedd Gwydn – Rheolwr Prosiect

PERTHNASOEDD ALLWEDDOL

Swyddogion Prosiect GG, Partneriaid y Prosiect

PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD

Bydd y rôl yma ar gyfer hyfforddai yn cyfrannu'n weithredol at redeg y prosiect o ddydd i ddydd, drwy sesiynau hyfforddi sy'n cael eu darparu mewn technegau rheoli glaswelltiroedd, arolygu planhigion a chynefinoedd a gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Darparu cefnogaeth weinyddol gyffredinol i'r prosiect yn ôl yr angen i gefnogi tîm y prosiect.
- Helpu i drefnu gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithio gyda gwirfoddolwyr.
- Datblygu cyfathrebu ar gyfer y prosiect, gan gynnwys cynnwys ar gyfer blogiau a chyfryngau cymdeithasol i gynulleidfaoedd presennol a newydd
- Cadw at bolisiau gwaith Plantlife bob amser, gan gynnwys y rhai ar lechyd a Diogelwch, y GDPR a Chyfle Cyfartal.
- Ymgymryd, o bryd i'w gilydd, â dyletswyddau eraill a all fod yn ofynnol gennych i gefnogi effeithiolrwydd Plantlife yn gyffredinol.
- Cyfrannu at lwyddiant cyffredinol Plantlife a chefnogi diwylliant cadarnhaol drwy waith tîm, cyfathrebu ac arweinyddiaeth.

MANYLEB Y PERSON

Rhaid i chi fod yn llawn cymhelliant, yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu sgiliau newydd. Rhaid i chi fwynhau gweithio gyda phobl a bod â sgiliau cyfathrebu da.

Hanfodol	Dymunol
Diddordeb brwd mewn byd natur a gweithio yn yr awyr agored	Sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig
Brwdfrydig, gyda dyhead cadarn i ddysgu sgiliau newydd	Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr
Deall TG gyda chymhwysedd yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol	
Y gallu i weithio fel tîm	
Mynediad at drafnidiaeth	
Sgiliau cyfathrebu da – yn ysgrifenedig ac ar lafar	

Telerau ac Amodau Allweddol

Cyflog	£18,964 - £20,528 * Cyflog Byw Cenedlaethol
Oriau Gwaith	Llawn Amser - 35 awr yr wythnos
Tymor	Contract Tymor Penodol - 12 mis
Lleoliad	Cartref gyda theithio helaeth ledled Cymru
Gwyliau blynyddol	36 diwrnod o wyliau y flwyddyn (gan gynnwys gwyliau banc) Bydd diwrnod ychwanegol o wyliau yn cael ei ddyfarnu ar ôl cwblhau'r flwyddyn 1af, a'r 3edd, y 5ed a'r 7fed blwyddyn o gyflogaeth Cau gweithredol rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd (wedi'i gynnwys yn yr hawl)
Manteision Eraill	Cynllun pensiwn cyfrannol - cyfraniad cyflogwr o 6%. Budd-dal marwolaeth mewn gwasanaeth *** Mae aelodau newydd yn cael eu recriwtio ar bwynt mynediad y band - £18,964 (Cyfwerth Ag Amser Llawn). Dyma'r Cyflog Byw Cenedlaethol a bydd yn cynyddu yn unol â deddfwriaeth o 1af Ebrill 2024 ymlaen.

Mae Plantlife yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys ac addas heb ystyried rhyw, hil, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, statws trawsryweddol, crefydd neu gred, statws priodasol, neu feichiogrwydd a mamolaeth.

Mae'r rôl hon wedi'i lleoli yn y DU ac mae'n rhaid i chi allu dangos eich Hawl i Weithio yn y DU.

Sut i Wneud Cais

TY dyddiad cau ar gyfer y rôl yw dydd Sul 26ain Tachwedd.

Y dyddiad ar gyfer y cyfweiliadau i'w gadarnhau, byddant yn cael eu cynnal tua chanol mis Rhagfyr.

Os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n addas iawn ar ein cyfer ni a'r rôl, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

Lawrlwythwch ffurflen gais a Chydraddoldeb sydd ar y dudalen swyddi gwag ar ein gwefan ni.

Anfonwch lythyr eglurhaol atom hefyd yn ateb y cwestiynau canlynol:

- Pam ydych chi eisiau gyrfa mewn cadwraeth?
- Pa ymdrechion ydych chi wedi'u gwneud hyd yn hyn i gael mynediad i'r sector cadwraeth?
- Sut byddai'r hyfforddeiaeth yma o fudd i chi?

Ar ôl cwblhau, pwyswch y botwm 'Ymgeisio'. Bydd hwn yn mynd â chi i'n porthol recriwtio ni lle bydd gofyn i chi uwchlwytho'r dogfennau.

Diolch i chi am eich diddordeb yn y rôl yma.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rôl mae croeso i chi anfon e-bost at: jobs@plantlife.org.uk